



# Sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol Social care research roadshows

#STYGCLlandudno | #SCRRLlandudno

Sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol  
Social care research roadshows



Gofal Cymdeithasol Cymru  
Social Care Wales

# Croeso

## Helo a chroeso i sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol!

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal y digwyddiadau hyn, felly gobeithio y byddwch yn eu gweld yn ddefnyddiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gweld tystiolaeth yn cael ei hymgorffori i arferion gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn uchelgais gennym, ond gwyddom y gall hyn fod yn heriol am nifer o resymau.

Canfu ein hymchwil i sut mae'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn deall ac yn defnyddio tystiolaeth rai rhwystrau cyffredin, gan gynnwys diffyg amser, cyllid a mynediad at adnoddau, yn ogystal â phrinder sgiliau a hyder i ddod o hyd i dystiolaeth a'i defnyddio.

Amlygodd y gwaith ymchwil hwnnw hefyd bwysigrwydd meithrin cydberthnasau rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr, a bu'r canfyddiadau hyn o gymorth i ni ddeall yn well sut y gallwn gefnogi gweithwyr i roi tystiolaeth ar waith.

Fel rhan o'n gwaith yn y maes hwn, rydyn ni wedi ymuno ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i drefnu'r sioeau teithiol hyn, sy'n rhad ac am ddim.

Rydyn ni am ddangos yr effaith gadarnhaol y gall ymchwil ei chael ar arferion, yn ogystal â thynnu sylw at rywfaint o'r dystiolaeth sydd ar gael a rhoi'r cyfle i chi greu cysylltiadau ag ymchwilwyr.

Byddwch yn clywed gan arbenigwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt ar ystod o bynciau ymchwil ym maes gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pynciau wedi'u dewis gennym yn seiliedig ar ein gwaith diweddar i nodi blaenoriaethau ymchwil.

Cewch gyfle i siarad am y pynciau yn fwy manwl gyda'r ymchwilwyr eu hunain, a chydag ymarferwyr eraill.

Yn yr oes hon o gyfarfodydd rhithwir, mae'n braf gallu dod at ein gilydd wyneb yn wyneb fel hyn. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich diwrnod ac yn mynd adref wedi magu mwy o hyder i ddefnyddio tystiolaeth yn eich gwaith o ddydd i ddydd.

Diolch am ymuno â ni.

**Sue Evans**

Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru

# Croeso

Diolch am gymryd yr amser i fod gyda ni heddiw yn sioe deithiol ymchwil gofal cymdeithasol 2023. Mae tîm Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'n cydweithwyr yn Gofal Cymdeithasol Cymru'n hyderus y gallwch ddisgwyl diwrnod ysbrydolgar llawn dysgu, rhannu a rhwydweithio gyda chydweithwyr ar draws gofal cymdeithasol Cymru.

Bydd y sioeau teithiol yn rhoi cyfle i'r gymuned gofal cymdeithasol ddysgu, ond bydd hefyd yn arddangos yr ymchwil ddiweddaraf yn y sector gofal cymdeithasol, gan dynnu sylw at effaith a gwerth ymchwil er arfer, gan ganolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethau ymchwil a nodir.

Cyda lansiad diweddar ein cynllun tair blynedd, 'Pwysigrwydd Ymchwil: Ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal Cymru yn 2022-2025', mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ymchwil gofal cymdeithasol. Drwy ein Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n cynnwys gofal iechyd a chymdeithasol, rydym yn datblygu gweithlu ymchwil cryf ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn cau'r bwloch rhwng ymchwil gofal cymdeithasol a gofal iechyd, rydym hefyd yn cefnogi amrywiaeth o raglenni gan gynnwys ENRICH Cymru a CASCADE. Wrth ariannu canolfan ymchwil gofal cymdeithasol newydd i oedolion gyda Phrifysgol Caerdydd, rydym hefyd yn rhoi cyfleoedd i ganolbwyntio ar gapasiti arweinyddiaeth ymchwil uwch.

Gyda'n gilydd, gallwn godi proffil ymchwil gofal cymdeithasol, archwilio posibiliadau newydd a chymryd rhan mewn prosiectau cyffrous newydd. Rwy'n gobeithio y byddwch yn elwa ar y diwrnod, ac y gallwch fynd â'r hyn rydych yn ei ddysgu heddiw yn ôl i'ch timau a'ch sefydliadau er mwyn ein helpu i wella canlyniadau i bobl Cymru.

## Kieran Walshe

Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Amdanom ni



## Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein rôl reoleiddio yn golygu ein bod yn cofrestru ymarferwyr, yn gosod safonau ymarfer ac yn sicrhau bod gweithwyr yn addas i weithio, tra'n datblygu'r gweithlu i sicrhau bod yr wybodaeth a'r sgiliau ganddynt i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai y mae angen cymorth arnynt.

Rydyn ni'n gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gael tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn rhannu arferion da gyda'r gweithlu fel y gall ddarparu'r ymateb gorau.

Mae ein gwaith hefyd yn golygu ein bod yn cefnogi arloesedd yn y sector ac yn casglu data sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol, yn ogystal â gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd arnynt fel blaenoriaeth genedlaethol.

Rydyn ni'n cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru.

# Amdanom ni



## Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Sefydliad rhwydwaith yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, sy'n uno amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws y GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau ymchwil, y trydydd sector ac eraill.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau eraill y llywodraeth ac arianwyr ymchwil (yng Nghymru ac ar draws y DU); partneriaid y diwydiant; cleifion; defnyddwyr gwasanaeth; y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo ymchwil i glfydau, triniaethau, gwasanaethau a chanlyniadau sy'n gallu arwain at ddarganfyddiadau ac arloeseddau sy'n gallu gwella a hyd yn oed achub bywydau pobl. Am ragor o wybodaeth, ewch i: [ymchwilielchydagofalcymru.org](http://ymchwilielchydagofalcymru.org)

# Gair gan Gomisiynydd Plant Cymru



**Rocio Cifuentes**

**Bydd Rocio Cifuentes MBE, Comisiynydd Plant Cymru, yn cyfrannu at y gynhadledd o bell.**

Mae Rocio yn awyddus i rannu rhai canfyddiadau allweddol o'i harolwg Gobeithion i Gymru o fwy na 8,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth lunio ei blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae mynd i'r afael â thlodi, diogelu plant a diwygio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn uchel ar ei hagenda. Mae Rocio yn awyddus i rannu'r camau gweithredu y bydd hi a'i thîm yn eu cymryd, ynghyd â'r galwadau mae'n eu gwneud i wneuthurwyr penderfyniadau er mwyn cyflawni newidiadau effeithiol i blant.

# Gwybodaeth am y diwrnod

## Cofrestru

Bydd cofrestru a rhwydweithio'n dechrau o 9.30am. Bydd y brif raglen a sesiynau siaradwyr yn dechrau o 10am, yna'n cael eu rhannu'n ddwy sesiwn baralel. Caiff cinio ei weini yn Ystafell Orme am 1pm, yna sesiynau paralel yn y prynhawn a sylwadau i gau gan y cyflwynydd yn Ystafell Deganwy am 3.20pm. Rydyn ni'n gobeithio i'r gyfres o ddigwyddiadau hon fod yn ddi-bapur, felly rydyn ni'n eich annog i lawrlwytho'r llyfryn hwn yn hytrach na'i argraffu. Ni fydd unrhyw gopiau papur ar gael ar y dydd.

**Mae modd cael mynediad i Wifi yn Venue Cymru drwy'r rhwydwaith a'r cyfrinair canlynol:**

**Rhwydwaith: VC Event**

**Cyfrinair: researchroadshow2023**

## Cyfieithu ar y pryd

Gall darnau o'r rhaglen sioe deithiol gael eu cyflwyno yn Gymraeg. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael drwy'r setiau pen ar eich seddi yn Ystafell Deganwy i'r rheiny y mae angen y gwasanaeth arnynt.

Fel rhan o brif raglen y sioe deithiol, gall cwestiynau gael eu gofyn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na all ymatebwyr siarad Gymraeg, rhoddir eu hatebion yn Saesneg.

## Bwrsariaethau teithio

Er bod y sioeau teithiol ymchwil gofal cymdeithasol yn rhad ac am ddim, rydyn ni'n deall y gall rhai pobl ddioddef anawsterau ariannol yn sicrhau modd teithio i'r digwyddiad ac oddi yno.

Mae yna fwrsariaethau ar gael i helpu gyda hyn, felly cysylltwch â thîm y sioe deithiol os oes angen cymorth arnoch.

# Rhaglen

## SESIWN Y BORE – YSTAFELL DEGANWY

09.30

**Cofrestru'n agor**  
Eich cyfle i gynllunio eich diwrnod ac i rwydweithio

10.00

**Croeso i'r sioe deithiol ymchwil gofal cymdeithasol gyntaf hon**  
Kieran Walshe, Cyfarwyddwr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru  
Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

10.15

**Prif siaradwr: Gofal cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd mewn amseroedd caled**  
Sally Holland, CASCADE, Prifysgol Caerdydd,  
Comisiynydd Plant Cymru 2015-2022

10.35

EGWYL FER



# Rhaglen

SESIWN BARALEL UN		
	<b>YSTAFELL HARLECH</b> <b>A</b> Atal plant rhag bod mewn gofal	<b>YSTAFELL RHUDDLAN</b> <b>B</b> Pobl ifanc a risg
10.45	<b>Siarter ar gyfer rhieni sydd wedi profi'r sector gofal</b> Rachael Vaughan, CASCADE, Prifysgol Caerdydd	<b>Arfer sy'n ystyriol o drawma yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Cymru</b> Tegan Brierley-Sollis, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
	<b>Eiriolaeth Rhieni Cymheiriaid: Gweithrediad ac effaith ganfyddedig</b> Clive Diaz, CASCADE, Prifysgol Caerdydd	<b>Gwella ymarfer mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol</b> Nici Evans, Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
	<b>Cynadledau grŵp i deuluoedd yn y system diogelu plant</b> Lorna Stabler, CASCADE, Prifysgol Caerdydd	<b>Camfanteisio troseddol ar blant: Pecyn Cymorth i ymarferwyr</b> Nina Maxwell, CASCADE, Prifysgol Caerdydd
11.45	<b>EGWYL GOFFI A RHWYDWEITHIO</b>	
12.05	<b>MYFYRDODAU AR Y BORE A SESIWN HOLI AC ATEB GYDAG YMCHWILWYR</b> Cynhelir y sesiynau hyn yn Ystafelloedd Conwy, Harlech a Rhuddlan	
13.00	<b>CINIO - EGWYL GOFFI A RHWYDWEITHIO - YSTAFELL ORME</b>	

# Rhaglen

## SESIWN Y PRYNHAWN

## SESIWN BARALEL DAU

	<b>YSTAFELL HARLECH</b> <b>A</b> Gwaith yn seiliedig ar gryfderau	<b>YSTAFELL RHUDDLAN</b> <b>B</b> Plant sy'n derbyn gofal
13.45	<b>Datblygu arferion sy'n seiliedig ar adfer gyda theuluoedd</b> Tim Fisher, Cyngor Camden	<b>Dysgu gan Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teulu Nuffield</b> Stefanie Doebler, Prifysgol Caerhirfryn
	<b>Sut mae pobl ifanc eisiau i ymarferwyr weithio gyda nhw</b> Peer Action Collective	<b>Yr hyn sy'n gweithio i wella iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal</b> Rhiannon Evans, DECIPHer, Prifysgol Caerdydd
14.25	<b>EGWYL GOFFI A RHWYDWEITHIO</b>	
14.40	<b>MYFYRDODAU AR Y PRYNHAWN A SESIWN HOLI AC ATEB GYDAG YMCHWILWYR</b>	
15.20	<b>GEIRIAU OLAF</b>	

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Tegan Brierley-Sollis**  
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Mae Tegan yn ddarlithydd Plismona, Troseddeg, a Dulliau sy'n ystyriol o Drawma ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam. Mae'n aelod o Cyfiawnder: Y Sefydliad Ymchwil Cynhwysiant Cymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr a'r prosiect sy'n ystyriol o drawma a phrofiad niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae gan Tegan brofiad o weithio a gwirfoddoli gyda phlant ac oedolion sydd â chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, gyda gwasanaethau statudol a gwirfoddol. Yn ystod ei hastudiaethau doethuriaeth, creodd gysyniad i egluro beth yw trawma ac arferion sy'n ystyriol o drawma mewn ffordd glir a hygyrch. Mae'r cysyniad bellach wedi'i ddatblygu i fod yn animeiddiad o'r enw 'Llywio'r Storm'.

**'Syrffio tonnau atebolrwydd tosturiol yn y gwasanaeth cyfiawnder leuenctid'**

## Crynodeb o'r chyflwyniad

Mae'r ddarlith yn ymwneud ag ymchwil doethuriaeth a oedd yn archwilio'r diwylliant sy'n ystyriol o drawma sy'n dod i'r amlwg yng Ngwasanaeth Cyfiawnder leuenctid Gogledd Cymru. Bydd Tegan yn mynd â'r gynulleidfa ar daith fanwl i rai o'r canfyddiadau, yn seiliedig ar adroddiadau gan blant sy'n ymwneud â chyfiawnder a darparwyr gwasanaethau, ac yn trafod:

- sut y gallai diwylliant sy'n ystyriol o drawma edrych a themllo
- heriau ymgorffori diwylliant sy'n ystyriol o drawma mewn lleoliad cyfiawnder
- y manteision y gallai diwylliant sy'n ystyriol o drawma eu cael ar staff a'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Clive Diaz**

CASCADE,  
Prifysgol Caerdydd

Mae gan Clive dros ddwy flynedd ar bymtheg o brofiad fel gweithiwr cymdeithasol, cadeirydd cynadleddau amddiffyn plant, rheolwr diogelu a sicrhau ansawdd, a phrif weithiwr cymdeithasol. Yn fwy diweddar, mae wedi ymgymryd â rôl academiaidd ym Mhrifysgol Caerfaddon, Y Brifysgol Agored a Phrifysgol Brookes Rhydychen. Mae wedi gweithio fel ymchwilydd i CASCADE ers 2018.

Ar hyn o bryd, mae Clive yn arwain tri gwerthusiad realistig ar eiriolaeth rhieni, ac yn ddiweddar, cwblhaodd astudiaeth a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i weithrediad canllawiau newydd yn ymwneud â diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol yng Nghymru. Mae wedi ysgrifennu dros 20 o gyhoeddiadau ar ofal cymdeithasol plant, ac yn 2020 cyhoeddodd ei lyfr cyntaf ar wneud penderfyniadau mewn gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd gyda Policy Press.

## Crynodeb o'r cyflwyniad

Mae ymchwil rhyngwladol yn awgrymu, er bod rhieni'n credu bod y system amddiffyn plant yn stigmatiddio ac yn awdurdodol, mae eiriolaeth rhieni cymheiriaid (ERhC) yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl cyffredinol rhieni, a gall helpu i bontio cydberthynas

## 'Eiriolaeth Rhieni Cymheiriaid (ERhC): Gweithrediad ac Effaith Ymddangosiadol'

rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol yn ymwneud ag amddiffyn plant. Dangoswyd bod ERhC, yn arbennig, yn lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal y wladwriaeth mewn ymchwil yn UDA. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymchwil a wnaed yn y DU hyd yma. Fel maes polisi o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg, mae ymchwil i rôl ERhC wrth rymuso rhieni i gymryd rhan ystyrlon yn y broses o wneud penderfyniadau yn hanfodol i ddatblygu dulliau cydweithredol a chanlyniadau cadarnhaol.

Bydd y cyflwyniad yn rhannu canfyddiadau o gyfweiliadau, grwpiau ffocws, arsylwadau a chyfarfodydd rhanddeiliaid gyda rhieni, eiriolwyr rhieni a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ar effaith ymddangosiadol ERhC mewn awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae ein hymchwil yn nodi pedwar dull posibl i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau: ymgysylltu gweithredol, cyfathrebu effeithiol, hwyluso ymddiriedaeth a darparu cefnogaeth ddigonol. Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio swyddogaeth hanfodol eiriolwyr rhieni i bontio rhwng rhieni a gweithwyr cymdeithasol, ac maent yn hyrwyddo cyfranogiad cydweithredol ac yn grymuso rhieni i deimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Stefanie Doeblar**  
Prifysgol Caerhirfryn

Mae Stefanie yn ddarlithydd Cymdeithaseg ac Ystadegau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Mae'n aelod o'r Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd yng Nghaerhirfryn a'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol a ariennir gan Nuffield. Mae'r bartneriaeth yn gydweithrediad rhwng prifysgolion Caerhirfryn ac Abertawe. Mae ymchwil Stefanie yn canolbwyntio ar anfantais gymdeithasol, tlodi a sut mae hyn yn effeithio ar gwrs bywyd.

## 'Cyfraddau'r plant mewn achosion gofal llys A31 gorfodol yng Nghymru - cydberthnasau gydag amddifadedd'

### Crynodeb o'r cyflwyniad

Mae'r nifer cynyddol o blant sy'n cael eu lleoli mewn gofal y tu allan i'r cartref yn destun pryder cenedlaethol. Mae Cymru wedi gweld niferoedd cynyddol o blant yn cael eu lleoli mewn gofal y tu allan i'r cartref rhwng 2011 a 2022, a hynny ar gyfradd uwch o gymharu â Lloegr. Mae'r cyfraddau'n arbennig o uchel ymhlith y plant ieuengaf (babanod), sydd wedi cael sylw yn y cyfryngau.

Mae'r cyflwyniad hwn yn datgysylltu effeithiau'r gwahanol barthau amddifadedd ac yn trafod sut maent yn effeithio ar gyfraddau'r babanod a'r plant hŷn a oedd yn destun achos gofal yn awdurdodau lleol Cymru rhwng 2014 a 2019.

Ymysg rhai o ganfyddiadau allweddol ein dadansoddiad, gwelwyd bod cysylltiad amlwg rhwng cyflogaeth, incwm, amddifadedd addysgol ac iechyd a chyfraddau uwch o blant sy'n destun achos gofal llys gorfodol. Mae'r papur yn hybu gwybodaeth am y cyd-destun polisi ehangach, a allai helpu ymarferwyr a llunwyr polisi sy'n gweithio i wella llesiant cymdeithasol plant mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Nici Evans**

Canolfan Arbenigedd ar  
Gam-drin Plant yn Rhywiol

Cymhwysodd Nici fel nyrs gyffredinol gofrestredig yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ym 1986. O gyfnod cynnar iawn, datblygodd ei hangerdd am nyrsio cancer a gofal lliniarol. Ym 1995, cyfunodd Nici ei chariad at nyrsio, gofal lliniarol ac addysgu a dechrau ar yrfa mewn addysg a hyfforddiant. Bu'n gweithio gyda Cymorth Cancer Macmillan fel darlithydd cenedlaethol tan 2007. Nici oedd y swyddog arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â cham-fanteisio ar bobl ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd tan 2019, ac ymunodd hefyd â'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol fel cynghorydd gwella arferion. Mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarganfod ffyrdd gwell o gydweithio i wella iechyd a llesiant plant, oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed a datblygu ymateb amlasiantaethol o ansawdd uchel i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Mae Nici hefyd yn ei blwyddyn olaf o hyfforddiant fel seicotherapydd Cyngor Seicotherapi y Deyrnas Unedig ac yn gweithio un diwrnod yr wythnos gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgol uwchradd leol yng Nghaerdydd.

**'Gweithio gyda phlant a theuluoedd lle mae pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol'**

## Crynodeb o'r cyflwyniad

Sefydlwyd y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol i nodi, cynhyrchu a rhannu tystiolaeth o ansawdd uchel i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a'i atal. Mae deall maint a natur y broblem o gam-drin plant yn rhywiol yn allweddol i wella'r ymateb iddo. Bydd y cyflwyniad heddiw yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth ddiweddaraf o faint a natur y broblem o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn archwilio pam fod gweithwyr proffesiynol yn ei chael yn anodd siarad am gam-drin plant yn rhywiol a'r heriau a brofir yn ymarferol. Yn olaf, byddwn yn trafod adnoddau sy'n seiliedig ar arferion sy'n cefnogi'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd pan fydd pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn codi.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Rhiannon Evans**

DECIPHer,  
Prifysgol Caerdydd

Mae Rhiannon yn ddarlleneydd mewn Gwyddor Gymdeithasol ac Iechyd yn DECIPHer (Canolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwellu Iechyd y Cyhoedd) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Hi yw arweinydd Gwyddor Gymdeithasol y ganolfan ac arweinydd academaidd y rhaglen ymchwil 'Perthnasau Gymdeithasol Iach.' Mae ei hymchwil sylweddol yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, yn ogystal ag atal hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn ymyriadau ar gyfer lleisiau na chânt eu clywed yn aml, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae ei harbenigedd methodolegol yn cynnwys gwerthuso prosesau, dulliau ansoddol, adolygiadau systematig wedi'u llywio gan systemau cymhleth ac addasu ymyriadau. Cyd-arweiniodd ganllawiau diweddar, a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Meddygol (MRC) a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Gymdeithasol (NIHR), ar addasu ymyriadau i'w darparu yn y cyd-destunau nesaf.

**'Ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i wella canlyniadau iechyd meddwl a llesiant: adolygiad systematig (CHIMES)'**

## Crynodeb o'r chyflwyniad

Mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o brofi canlyniadau iechyd meddwl a llesiant niweidiol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Er gwaethaf amrywiaeth o argymhellion polisi ac ymyriadau, nid yw'n glir pa ddulliau gweithredu sy'n effeithiol yn y DU neu y gellid eu trosglwyddo'n llwyddiannus i'r cyd-destun hwn.

Nod adolygiad CHIMES oedd cyfodod y sylfaen dystiolaeth ryngwladol ar gyfer ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac asesu p'un a fyddai'n bosib defnyddio'r sylfaen dystiolaeth honno yng nghyd-destun y DU.

Canfu'r adolygiad dystiolaeth ar gyfer ymyriadau yn effeithio ar iechyd meddwl yn y tymor byr. Gall ymyriadau yn y dyfodol flaenoriaethu mentora a thargedu diwylliant systemau.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Tim Fisher**  
Cyngor Camden

Tim yw un o arbenigwyr mwyaf blaenllaw y DU mewn dulliau hwyluso a chyfranogol. Mae wedi bod yn weithiwr cymdeithasol ers un mlynedd ar bymtheg ac yn rheolwr awdurdod lleol ers deng mlynedd. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel rheolwr gwasanaeth gyda Bwrdeistref Camden yn Llundain. Mae wedi ymchwilio i fodelau grymuso mewn gwaith cymdeithasol ar gyfer gradd feistr (rhagoriaeth gradd feistr Gwaith Cymdeithasol o Brifysgol Caerdydd), ac wedi cydweithio â sefydliadau i ddatblygu cynhadledd grŵp teulu, eiriolaeth cymheiriaid a dulliau eraill sy'n hwyluso cynhwysiant rhieni.

Ar hyn o bryd, mae'n gyd-ymchwilydd gyda'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Mae wedi cyhoeddi gwaith ysgrifenedig ar waith cymdeithasol a dulliau cymunedol, yn ogystal â chyhoeddiadau cylchgrawn, gan gynnwys Community Care, The Ecologist a'r Stanford Social Innovation Review.

**'Gweithredu perthynol: Helpu i wneud newid cadarnhaol yn y bydoedd y gallwn eu cyffwrdd'**

## Crynodeb o'r cyflwyniad

Bydd Tim yn canolbwyntio ar bŵer trawsnewidiol perthnasoedd a'r gymuned wrth weithredu newid cymdeithasol. Bydd yn archwilio effeithiolrwydd adrodd straeon, meithrin perthnasoedd a gweledigaeth cymunedau fel ffyrdd o feithrin cynhwysiant a datblygu arfer gwaith cymdeithasol da.

Bydd Tim yn tynnu sylw at ddull cydlynol Camden i actifyddiaeth, sy'n cynnwys dulliau megis eiriolaeth rhieni cymheiriaid, cynadleddau grŵp teulu a mentrau a ddyluniwyd ar y cyd. Y sail i'r rhain yw partneriaethau cryf â phrifysgolion a sgwrs sy'n uno dinasyddion, ymchwil ac arferion cymunedol er mwyn eu trafod ac er dysgu ar y cyd.

Gan ddefnyddio egwyddorion cwmniaeth, ymddiriedaeth a phresenoldeb Jane Addams, bydd Tim yn ein hannog i ystyried potensial actifyddiaeth perthynol.



# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Yr Athro Sally Holland**

CASCADE,  
Prifysgol Caerdydd

Mae Sally yn gweithio yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd. Hi sy'n gyfrifol am arwain ar gynnwys y cyhoedd yno. Ar hyn o bryd, mae'n arwain y gwerthusiad o gynllun peilot incwm sylfaenol Cymru ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Mae Sally yn weithiwr cymdeithasol cymwys a chofrestredig gyda phrofiad ym maes gwasanaethau plant. Hi oedd Comisiynydd Plant Cymru rhwng 2015 a 2022.

**'Gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd mewn cyfnodau anodd: Yr argyfwng costau byw, gwaith cymdeithasol gwrthdlodi ac ymchwil'**

## Crynodeb o'r cyflwyniad

Yn y cyflwyniad hwn, bydd Sally yn myfyrio ar sut mae tlodi yn rhyngweithio â gwaith cymdeithasol gyda theuluoedd. Bydd yn cyflwyno tystiolaeth ar sut yr ydym yn ymyrryd â theuluoedd sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd, a sut y gall cynyddu incwm wneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd plant a'u diogelwch.

Bydd yn trafod arbrawf radical sy'n ceisio hybu incwm yng Nghymru – cynllun peilot incwm sylfaenol Cymru ar gyfer ymadawyr gofal – ac yn egluro sut rydym yn asesu effaith y cynllun peilot ac yn deall profiad y bobl ifanc ohono, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Dr Nina Maxwell**  
Prifysgol Caerdydd

Mae Nina yn brif gymrawd ymchwil ac yn ddirprwy gyfarwyddwr dros dro i CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant. Mae hefyd yn seicolegydd siartredig ac yn gyd-arweinydd gofal cymdeithasol arbenigol i Gymru. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar ieuenctid, cymdeithas a risg.

**‘Camfanteisio’n droseddol ar blant: Pecyn cymorth i ymarferwyr ‘**

## Crynodeb o’r cyflwyniad

Mae’r sesiwn hon yn darparu enghraifft o sut mae prosiect ymchwil wedi’i ddefnyddio i gyd-gynhyrchu pecyn cymorth o adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rhieni a phobl ifanc. Nod y prosiect dwy flynedd o hyd, a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, oedd pennu sut mae camfanteisio’n droseddol ar blant yn dod i’r amlwg yng Nghymru a pha dulliau sydd fwyaf defnyddiol. Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o brif ganfyddiadau’r ymchwil a’r broses gyd-gynhyrchu cyn cyflwyno’r pecynnau cymorth.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Lorna Stabler**  
CASCADE, Prifysgol Caerdydd

Mae Lorna wedi bod yn gydymaith ymchwil yn CASCADE, Prifysgol Caerdydd, ers pum mlynedd, ac wedi gweithio ar nifer o brosiectau ym maes gofal cymdeithasol plant ac wedi'u harwain. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar gydberthnasau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc sydd â chysylltiad â gwasanaethau plant, a'r ffordd orau i gefnogi a chryfhau'r cydberthnasau hynny, gan ganolbwyntio'n benodol ar ofal gan berthynas.

Mae Lorna hefyd yn fyfyrwr doethuriaeth a ariannir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn DECIPHer, Prifysgol Caerdydd. Mae ei doethuriaeth yn canolbwyntio ar anghenion teuluoedd lle mae brawd neu chwaer hŷn yn gofalu'n llawn amser am eu brawd neu chwaer iau fel gofalwr carennydd.

## 'Cynadleddau grŵp teulu yn y system amddiffyn plant'

### Crynodeb o'r cyflwyniad

Bydd y cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg byr o ganfyddiadau tri phrosiect sy'n canolbwyntio ar ofal carennydd.

Bydd yn trafod y gwahaniaeth rhwng anghenion gwahanol grwpiau o ofalwyr, a'r hyn sy'n gweithio'n dda yng Nghymru a ledled y DU i ymateb i anghenion y grwpiau hyn. Bydd hefyd yn amlygu rhai o'r meysydd datblygu sydd wedi'u nodi.

Bydd y cyflwyniad yn canolbwyntio'n benodol ar naratifau ynghylch y gwahaniaeth y gall y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn ei wneud, a beth fyddai hyn yn ei olygu i wahanol fathau o ofalwyr a phlant mewn gofal gan berthynas. Bydd hefyd yn archwilio beth allai fod yn rhwystro teuluoedd rhag cael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Rachael Vaughan**  
CASCADE,  
Prifysgol Caerdydd

Mae Rachael yn arwain tîm sy'n rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i gynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr mewn modd ystyrlon yn ymchwil CASCADE.

Mae Rachael hefyd yn gweithio ar draws ystod o brosiectau ymchwil CASCADE, gan gefnogi eu gweithgareddau ymglymiad.

**'Cefnogi rhieni â phrofiad o fod mewn gofal: Siarter arferion da'**

## Crynodeb o'r cyflwyniad

Bydd y cyflwyniad yn darparu manylion am y prosiect ymchwil Cymru gyfan sy'n ymwneud â chanlyniadau, profiadau a chefnogaeth i rieni sydd mewn gofal a rhai sy'n gadael gofal. Cyflwynir siarter, sydd wedi'i chynhyrchu ar y cyd â rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac mewn ymgynghoriad â gweithwyr proffesiynol y sector statudol a'r trydydd sector.

# Siaradwyr a chyflwynwyr | A-Y



**Peer Action  
Collective**

**‘Sut yr hoffai pobl ifanc i ymarferwyr  
weithio gyda nhw’**

## Crynodeb o'r cyflwyniad

Mae'r Peer Action Collective (PAC) yn rhwydwaith arloesol o bobl ifanc sy'n ymroddedig i greu newid cadarnhaol yn eu cymunedau trwy ymchwil arloesol a gweithredu rhagweithiol.

Gan weithredu ledled Cymru, eu cenhadaeth yw grymuso ieuencid lleol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd wedi profi'r system cyfiawnder troseddol a/neu wedi bod mewn gofal, trwy roi llais iddynt a'u cefnogi i ddatblygu eu diddordebau a'u doniau.

Eu bwriad yw mynd i'r afael â materion cymdeithasol brys, megis trais ymhlith ieuencid a'r hyn sy'n ei ysgogi, gan gynnwys iechyd meddwl, rhywioldeb, hil a rhyw. Mae aelodau PAC yn cymryd rhan mewn arferion ymchwil trwyadl er mwyn tynnu sylw at brofiadau pobl ifanc o drais a chamdriniaeth, cyn defnyddio eu canfyddiadau i ddyfeisio atebion y gellir eu gweithredu sy'n helpu i lunio polisiau, rhaglenni a mentrau er mwyn gwneud ein cymunedau'n iachach ac yn fwy diogel.

Rydym wedi gweld llwyddiant sylweddol ac effaith gadarnhaol ein gwaith yn PAC hyd yma. Mae ein haelodau wedi dangos cynnydd amlwg mewn cymhelliant a hyder, ac wedi ymgymryd â nifer o brosiectau a mentrau gweithredu cymdeithasol, gan ddatblygu cynghreiriau hanfodol gyda phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Uned Atal Trais Cymru i ysgogi newid ystyrlon ar gyfer pobl ifanc ledled y wlad, tra'n hyrwyddo digwyddiadau mawr sy'n ceisio denu cyfranogiad ac ymgysylltiad ehangach fyth. Boed yn ymgyrchu am well gwasanaethau iechyd meddwl lleol neu greu llwybrau tuag at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, mae'r PAC wedi ymrwmo i hyrwyddo hawl pob unigolyn ifanc i ddiogelwch, cydraddoldeb a chyfiawnder.

# Partneriaid ac arddangoswyr

## ADSS Cymru

Mae ADSS Cymru yn darparu profiad a gwybodaeth arbenigol, o ran polisi ac arferion proffesiynol, yn delio â holl agweddau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn adnawdd gwybodaeth allweddol o fewn y sector gwasanaethau cymdeithasol, gan ymateb i'r galw am wybodaeth i lywio ar gymryd penderfyniadau strategol ac arferion gorau.

**[adss.cymru](http://adss.cymru)**

## DEEP

Mae Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) yn ddull ar y cyd i gasglu, archwilio a defnyddio mathau amrywiol o dystiolaeth mewn dysgu a datblygu gan ddefnyddio dulliau stori a deialog.

**[deepcymru.org](http://deepcymru.org)**

## Canopi

Mae Canopi yn darparu cymorth iechyd meddwl am ddim a chyfrinachol i staff gofal cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru. Maent yn arbennig o awyddus i gefnogi pobl sy'n teimlo fel na allant gael cymorth gan wasanaethau a ddarperir gan eu cyflogwyr. Maent yn cynnig lefelau amrywiol o gymorth gan gynnwys hunangymorth, cymorth gan gymheiriaid, hunangymorth dan arweiniad a therapi gydag arbenigwyr achrededig.

**[canopi.nhs.wales](http://canopi.nhs.wales)**

## CASCADE

CASCADE yw Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant. Nod CASCADE yw gwella llesiant, diogelwch a hawliau plant a'u teuluoedd, drwy greu a rhannu gwybodaeth newydd am ofal cymdeithasol plant.

**[cascadewales.org](http://cascadewales.org)**

## ExChange

Mae ExChange Wales yn uno ymchwilwyr arweiniol, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau i rannu arbenigedd, tystiolaeth ymchwil a phrofiadau gofal. Gallwch gofrestru i dderbyn newyddion ymchwil a digwyddiadau am ddim yma:

**[exchangewales.org](http://exchangewales.org)**